

## Ymweliadau ag Ysbytai Gogledd Ddwyrain yr India

### Ysbyty Dr Norman Tunnel, JOWAI

Dyma un o ysbytai cynharaf y maes cenhadol. Sefydlwyd hi gan y Parch. Edward Williams (1866-1925), brodor o Gorwen, a oedd hefyd yn feddyg cenhadol. Hwylodd ef a'i briod, Dora, o Lerpwl ym Medi 1893. Yn ôl y cofnod o'i fywyd yn *Llestri Gras a Gobaith* (Gol. D Ben Rees) roedd ganddo ofal dros yr ysbyty a sefydlwyd yn 1914 ac arolygaeth dros ddosbarth o 30 o eglwysi a 50 o ysgolion dyddiol. Ond cymer yr ysbyty gyfoes ei henw oddiar feddyg cenhadol diweddarach sef Dr Norman Tunnel, (1905? -1975) brodor o Newcastle upon Tyne a oedd yn llawfeddyg nodedig, yn bregethwr ac yn athro. Roedd ei wraig, Phyllis, a Miss Marian Pritchard yn cydweithio ag ef fel gweinyddesau. Cofiw'n hefyd am lafur y Parch. Gwilym Angell Jones a'i briod Helen, ac am gefnogaeth eu mab, Gwyn, a'r teulu i waith a gweinigogaeth yr ysbyty yn Jowai. Braff oedd clywed y diolch am eu cefnogaeth i'r teulu ac i bobl Cymru gan feddygon a staff yr ysbyty.



y cyfleusterau a'r datblygiadau diweddar. Fe welwch o'r lluniau fod adnoddau da ganddynt ac mae nifer o gynlluniau ar y gweill i ddatblygu gwasanaethau mamolaeth yr ysbyty.

Ar yr ail o Ebrill 2001 difrodwyd rhannau helaeth o'r ysbyty gan dân ac mae hyn wedi cael effaith ddifrifol ar gyllideb yr ysbyty gan eu bod yn gwasanaethu tlodion y dalgylch nad

ydint yn medru cyfrannu at eu gofal. 'Cafodd nifer o unedau'r ysbyty eu distrywio'n llwyr gan gynnwys yr hen Ward Breifat, yr Uned Famolaeth. Yr Ystafell Eni, yr Ystafell Pelydr X, ECG, USG yn ogystal ag offer drudfawr yn yr ysbyty. Difethwyd yn rhannol y Labordy, yr Ystafell Aros, ardal i Gleifion Allanol, ward y dynion a'r menywod, Swyddfa'r Ysbyty ayyb'.



Mae'r ysbyty felly yn gorfod pwysu ar roddion gan gyfeillion a grantiau. Er hynny maent yn llwyddo i ddatblygu'r adnoddau a gollwyd ac mae ymroddiad y staff yn glodwiw iawn. Dyma rai ystadegau sy'n dangos fel y mae'r ysbyty yn gwasanaethu Crist yn ei chymuned:

Mae bryniau Jaintia yn y rhan fwyaf dwyreiniol o Dalaith Meghalaya gyda phoblogaeth o 270,352. Mae'r ysbyty yn gwasanaethu ardal wledig o 486 o bentrefi yn ogystal

ag ardal drefol Jowai. Mae 168 o welyau yn yr ysbyty, yn gwasanaethu oddeutu 9,000 o gleifion yn flynyddol a thua 22,500 o gleifion allanol yn flynyddol.

Cyflawnir 800 o driniaethau llawfeddygol dwys pob blwyddyn a 2,000 o lawdrinaethau llai dwys. Mae pump gwely yn yr uned gofal dwys (ICU).

O ran y gwasanaethau mamolaeth mae'r ysbyty yn derbyn cyfeiriadau o'r gymuned ar gyfer achosion brys a dwys ac mae yna chwech gwely ar gael i fabanod sydd ag anghenion brys a difrifol (NICU). Un o'r cynlluniau sydd ar y gweill yw'r gwaith o ehangu'r uned yma i 14 o welyau.

Yn dilyn cefnogaeth o Gymru mae Uned Mamolaeth newydd a phwrpasol wedi ei chreu ar lawr cyntaf yr adeilad newydd a adeiladwyd yn dilyn y tân. Gosodwyd grisiau a lifft i gyrraedd yr Uned fel y gwelwch o'r llun. Ond oherwydd nad oes ganddynt ramp i gyrraedd yr Uned nid yw wedi bod yn bosibl i'r ysbyty gomisiynu'r Uned newydd. Fe erys yn segur ar hyn o bryd.



(parhad ar dudalen 2)

# Cofio a diolch am ffrind

'Mr Jones' i bobl Llanelli, 'David John Jones' yn ôl ei dystysgrif geni, 'David' ar yr aelwyd ond i'r rhai oedd yn ei adnabod fel ffrind, 'D J'. Mewn llythyr a dderbynias ganddo wedi marwolaeth ei annwyl briod Mair, merch y bu'n ei charu o ddyddiau ysgol hyd y diwedd, mae'n defnyddio teitl arall hefyd sef 'dy gyfaill'. Ac i weinidog ifanc benderfynodd droi ei olygon tua'r De, i ddiethrwrch tref ôl ddiwydiannol, mi 'roedd ac fe fu D J yn gyfaill. Fe arhosodd ymlaen fel aelod ac ymhen amser fe'i hetholwyd yn flaenor a'm hennill i oedd hynny. Fe fu'n 'dad yn y ffydd' llawn doethineb a chefnogaeth a'r aelwyd yn Cross Hands yn lloches llawn croeso a bendith.

Er iddo gael ei eni yn y Garnant, un o bobl Brynman Uchaf oedd D J, un o dri o blant i'r diweddar Tom Rhys ac Olive Jones. Fe'i magwyd ar aelwyd Gristnogol a dylanwad tad a mam yn dangos eu hôl ar gymeriad ac ar ffyddlondeb i'r achos ym Moriah ble'r oedd Tom Rhys yn flaenor. Yn un ar bymtheg oed teimlodd alwad i'r weinidogaeth. A hithau'n ddyddiau tywyll yr Ail Ryfel Byd, oherwydd ei wrthwynebiad i unrhyw ffyrdd ar drais, bu'n rhaid iddo fynd gerbron Tribiwnal yn Rhydaman a chanlyniad hynny oedd ei yrru i weithio tan ddaear yn Nhreharris a Gwaun Cae Gurwen. Yn 'Bevin Boy' a'i fedal diweddar yn rhywbeth i ymhyfrydu ynddi. Wedi'r rhyfel dilynodd y llwybr arferol; Trefeca, Y Coleg Diwinyddol Unedig a'r Flwyddyn Fugeiliol gyda'r ordeiniad yng

Nghapel Heol Dŵr, Caerfyrddin yn 1954. Ac yntau yn deall bywyd glöwr, peth hollol naturiol oedd derbyn galwad i gymuned o'r fath a phrofodd gapel enwog Ebenezer, Y Tymbl a Phentwyn ei bregethu grymus a'i fugeilio gofalus. O 1961 bu'n gweinidogaethu i gynulleidfaoedd Bethel, Cross Hands a Gibeia, Cwmgwili gan barhau yn weinidog ar Bentwyn ac yna o 1982 hyd ei ymddeoliad, Capel Newydd, Llanelli a Saron, Ffwrnes. Gweinidogaeth y liltir sgwâr ond heb gyfyngu ei weinidogaeth i'r eglwys hynny. Fe fyddai'n sôn wastad am ymweliad prin â'r gogledd pan yn fyfyrwr, i gapel Rhydcyclafdy o bob man a'r ffaith ei fod yn cael trafferth i'w deall a hwythau yntau! Bugeilio saint y de wnaeth D J, yn lleol a thu hwnt. Bu'n Ysgrifennydd a Llywydd Cymdeithasfa'r De ynghyd â Chyngor Eglwys Rhyddion y De a'r anrhydeddau hynny yn tanlinellu ei argyhoeddiadau anghydfurfiol dwfn a'i barch at weinidogaeth a thystiolaeth yr Eglwys. Y mae i bob traddodiad enwadol ei wendidau a'r gwendidau hynny yn amlygu eu hunain mewn ffyrdd penodol. Onid mater i Gymdeithasfa ddylai ethol Llywydd i'r Gymanfa fod, yn arwydd o adnabyddiaeth a chydabyddiaeth o berson ac o gyfraniad. Petai hynny'n bod yna'n sicr y byddem wedi gweld D J yn ei lifrai du a glas! Er hyn i gyd, pregethu a bugeilio oedd calon ei weinidogaeth a'r cyfan yn adlewyrchu darpariaeth ofalus a'i wybodaeth drylwyr o lenyddiaeth, barddoniaeth ac

emynyddiaeth. Yr oedd yn ddarllenwr a chynnwys ei silffoedd llyfrau yn adlewyrchu ei ddi-ddordebau eang; o ddiwinyddiaeth i lenyddiaeth, hunangofiannau i chwaraeon. 'Roedd yn ddyd y bêl rygbi a defod arferol prynhawn Sadwrn oedd cymdeithas y Strade a D J yng nghwmni ambell flaenor llafar, yn cefnogi ac yn dyfarnu.

Cafodd wraig arbennig yn Mair, y ddau'n ffrindiau ers dyddiau ysgol. Arferai gario'i bag ac wrth i'r berthynas flodeuo gwelwyd priodas a genedigaeth a Nia'n gannwyll llygaid y ddau ohonynt. Mawr fu'r gofal ar yr aelwyd yn Llandre wedi marwolaeth Mair a chariad a pharch Nia tuag at ei thad yn gymorth iddo yn ei alar a'i hiraeth.

Mewn cwta tri diwrnod dirywiodd ei iechyd ac yn nhangnefedd ei Arglwydd, a gredodd ac a gyhoeddodd, bu farw yn Ysbyty Bronglais.

A minnau wedi bod yn eistedd wrth ochr ei wely, troi am adref a sylweddoli mai dyna fyddai'r tro olaf. Calon drom a hiraeth am gwmni a chyfeillgarwch; diwedd pennod, colli ffrind ond diolch am atgofion.

I un a gollodd ei dad yn bump oed, diolch am dadau; am dadau yn y ffydd, am esiampl ac arweiniad, doethineb a theyrngarwch.

Diolch am y rhai y bu i ni gamu i'w gwaith, diolch fod Duw yn dal i alw a diolch am 'gyfeillion'!

*Eifion Roberts,  
Capel y Morfa, Aberystwyth*

## Eglwys Bresbyteraidd Cymru Henaduriaeth Arfon

Mae Eglwys Seilo, Caernarfon a Chapel Y Waun, Waunfawr yn dymuno galw

### Gweinidog Ordeiniedig llawn, neu ran-amser

i wasnaethu eu gofalaeth  
fywiog a gweithgar.

Ymholiadau a manylion pellach  
gan:

Richard P Jones 01286676096  
neu rpj2@btinternet.com

## Ysbyty Dr Norman Tunnel, JOWAI (parhad o dudalen 1)

Genedigaethau				
	2015	2016	2017	2018 (Mai)
Normal	871	1161	1243	521
Gydag offer	66	61	65	38
Toriad Cesaraidd	401	495	501	161
<b>Cyfanswm</b>	<b>1338</b>	<b>1717</b>	<b>1809</b>	<b>720</b>
Marwolaethau mam	8	3	4	2
Gofal Newydd-Anedig				
	2015	2016	2017	2018 (Mai)
Cyfanswm yn yr uned gofal dwys	525	672	667	326
Genedigaethau y tu allan	83	158	159	51
Genedigaethau yn yr Uned	442	514	510	275
Marwolaethau yn yr Uned	50	55	53	17

Gweddiwn ar i'r Arglwydd gynnal a chadw'r rhai sy'n ei wasanaethu draw yn ysbyty Jowai a'r cylch. Cofiw'n hefyd am y gofal sydd yn y cymunedau gwledig a'r rhaglenni iechyd sydd yn cael eu cynnal gan yr ysbyty ym mhentrefi Shangpung,

Rymbai a Semmasi. Diolchwn am eu hymroddiad ac am y cyfle sydd gan EBC o gefnogi'r gwaith ymhellach.

*Aneurin Owen,  
Llansannan*

### E-bost a'r Goleuad

Gall pwy bynnag sydd am anfon erthyglau a lliniau i'r Goleuad wneud hynny ar:

[goleuad@ebcpcw.org.uk](mailto:goleuad@ebcpcw.org.uk)